Gohebydd Lleol:
Ann Dwynwen Davies

YR YSGOL FEITHRIN
Os gwyddoch am unrhyw un a fyddai'n barod i arwain y cylch meithrin o fis Medi ymlaen, neu os oes gennych ddiddordeb eich hunan, cysylltwch â Siân Murphy (891520) am ragor o wybodaeth.

ADFERIAD BUAN
Da clywed fod Jennifer Taylor, 94 Maes y Sarn, bellach yn gwella'n dda ar ôl triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

TRYSOR O OLYGYDD!
Llongyfarchiadau i Penri a Carol Williams, Llio ac Awen, Hendre, Pantbach ar ennill Helfa Drysor Clwb y Dwrlyn eleni.

CROESO
Croeso i Ann a Gareth Hughes, Ty Dwrlyn, Heol Penuel, Pentyrch. Mae Ann yn dod o Lanllwni, (Dyfed) a Gareth o Aberdyfi. Mae ganddynt ddau blentyn, Gwilym sy'n ddwy oed a Lowri sy'n chwe mis.

GRADDIO
Llongyfarchiadau i Iestyn Griffiths sydd newydd raddio o'r Coleg Normal, Bangor.

# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E.June Huws

URDD
Cynhaliwyd Disgo yng Nghlwb Rygbi Ffynnon Taf nos Sadwrn, 23ain o Fehefin. Yr oedd yn noson lwyddiannus ond byddai wedi bod yn bosib gwasgu mwy i fewn.

CAPEL BETHLEHEM
Bore Sul 17ed o Fehefin roedd yna dipyn o sŵn yn y capel, T.J. yn gwneud ei orau ond eraill yn ennill y dydd. Yr achlysur, bedyddio tri baban bach a rheiny wedi dod â'u brodyr a chwiorydd hŷn i ymuno yn yr hwyl!

YSGOL FEITHRIN BETHLEHEM
Ni fydd rhaid i famau Gwaelod y Garth fynd â'u plant bach i ysgol feithrin Ffynnon Taf o hyn ymlaen oherwydd o fis Medi mae Mrs Ann Williams yn sefydlu meithrinfa yn festri Capel Bethlehem. Dymunwn bob llwyddiant i'r ysgol newydd. Am fwy o fanylion ffoniwch Ann Williams ar Ffynnon Taf 810190.



Rhys Beard, Chwaraewr Gorau y Flwyddyn dan 10 oed tîm Rygbi-Mini Pentyrch



David Mathews, y chwaraewr sydd wedi datblygu orau yn y tîm dan 12 oed.

# CYW HAUL

Addasiad llwyfan o nofel gyntaf, hynod boblogaidd, Twm Miall yw **Cyw Haul**, yn ymdrin â hanes Bleddyn, gwr ifanc sy'n wynebu newidiadau personol a chymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru yn y 1970'au. Mae'r addasiad llwyfan yn pwysleisio elfennau gorau'r nofel - stori dda, cymeriadau lliwgar, hiwmor ffraeth a deialog bachog. Ychwanegwyd at ddeunydd y nofel gan Twm Miall wrth i Hwyl a Fflag gomisiynu'r awdur i baratoi golygfeydd newydd sbon yn arbennig ar gyfer ein cyflwyniad.

Cast Cyw Haul yw Siw Hughes, Maldwyn John (yn rhan y prif gymeriad, Bleddyn); Tom Richmond, Nia Williams a Yoland Williams. Cyfarwyddwyd y ddrama ga Wyn Williams - brodor o Rhymni a Threfnydd Artistig Hwyl a Fflag.

Awdur proffesiynol yw Twm Miall. Yn frodor o Drawsfynydd, bu'n byw yng Nghaerdydd ers rhai blynyddoedd bellach.

Mae **Cyw Haul** yn addas i Oedolion dros 15 oed. Bydd tri pherfformiad o Cyw Haul yn Theatr Chapter, Caerdydd ar 19 - 21 Gorffennaf.

LLYWODRAETHWR NEWYDD
Llongyfarchiadau i Mr Stuart Williams, Y Mans, Gwaelod y Garth ar gael ei ethol ar fwrdd llywodraethwyr yr ysgol gynradd.

# *EISTEDDFOD CWM RHYMNI*

Annwyl Ddarllenwyr,
Cyfarchion o Gwm Rhymni i chi ddarllenwyr Tafod Elái. Fuoch chi rioed yng Nghwm Rhymni? Naddo? Dyma gyfle heb ei ail i chi ddod atom fis Awst eleni i fwynhau Eisteddfod Genedlaethol 1990.

Mae'r trefniadau yn mynd yn eu blaen yn hwylus, y cystadleuwyr gyda'r gorau ers blynyddoedd, is-bwyllgorau di-ri yn brysur yn clymu'r llinynnau'n dynn at ei gilydd. Y plant (o bob oedran) yn ymarfer eu doniau ar gyfer gweithgareddau'r wythnos.

A'r stiwardio? Fy mraint i - fel Prif Stiward Eisteddfod Cwm Rhymni yw eich gwahodd i gyfrannu at y bwrlwm bro fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod Awst 4-11 eleni. Mae ffyddloniaid yr Ŵyl wedi cynnig eu gwasanaeth yn barod - carfan fawr ohonynt yn ddysgwyr, cond nid yw rhestr y stiwardiaid yn gyflawn eto.

Beth am godi'r ffôn am sgwrs neu godi'r beiro i ysgrifennu gair ataf yn Swyddfa'r Eisteddfod. Mae gwir angen eich help fel stiwardiaid arnom.

Edrychaf ymlaen at eich cwrdd ar faes Eisteddfod Cwm Rhymni Awst 4-11 1990.

Yn Ddiffuant,
Gwyn Griffiths,
Prif Stiward